# Atodiad A

# Sefydlu Ardaloedd a Chynghorau Newydd

# Cyfrifo Costau a Manteision


Sefydlu Ardaloedd a Chynghorau Newydd ........ 2
Cyflwyniad ........ 2
Opsiwn 1 - Gwneud Dim ........ 3
Opsiwn 2 - Cydwasanaeth Gweinyddu ........ 3
COSTAU ........ 3
MANTEISION ........ 9
Opsiynau 3a a 3b – Uno Awdurdodau Lleol ........ 11
COSTAU ........ 11
MANTEISION ........ 21
Rhestr o Dablau ........ 24

# Sefydlu Ardaloedd a Chynghorau Newydd

## Cyflwyniad

Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o'r amcangyfrifon cost ar gyfer rhan 1 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy'n canolbwyntio ar sefydlu ardaloedd a Chynghorau newydd fel rhan o Fil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru). Mae'n rhaid darllen yr Atodiad hwn ar y cyd â'r adran berthnasol yn y prif Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft er mwyn rhoi cyd-destun a manylion cysylltiedig y ffigurau.

Ystyrir pob cost dros gyfnod o 10 mlynedd. Gan fod yr opsiynau a ystyrir yn newidiadau strategol sylweddol ystyrir ei bod yn briodol dadansoddi unrhyw gostau a manteision dros gyfnod digon hir o amser.

Rhoddir costau staff blynyddol ac wythnosol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn. Mae gwyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd salwch a gwyliau banc wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon a rhennir y costau blynyddol â 52 er mwyn cyfrifo costau wythnosol. Yn achos rhai bwriadau polisi ystyrir mai costau dyddiol yw'r ffordd fwyaf priodol o amcangyfrif gofynion o ran adnoddau. Er mwyn cyfrifo'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer un diwrnod rhennir y gost wythnosol â phump (nifer y diwrnodau gwaith mewn wythnos). Caiff y dull hwn ei gymhwyso'n gyson yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

Gan mai Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yw hwn, gwneir rhagor o waith dadansoddi er mwyn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn ategu Bil Llywodraeth Leol (Cymru), fel y'i cyflwynir i'r Cynulliad er mwyn iddo graffu arno. Mae'n amlwg y bydd Awdurdodau Lleol yn ystyried dulliau amrywiol o sicrhau arbedion effeithlonrwydd dros y blynyddoedd sy'n arwain at y Diwrnod Breinio. Yn ddiau bydd hyn yn newid y strwythurau ariannol a'r strwythurau staffio presennol. Ni wnaed unrhyw dybiaethau ynglŷn â'r ffordd y bydd Awdurdodau Lleol yn gwneud arbedion effeithlonrwydd yn y byrdymor am nad yw'n sicr pryd na ble y gwneir y newidiadau hyn. Lle y bo'n bosibl defnyddiwyd data mwyaf diweddar Awdurdodau Lleol er mwyn llunio amcangyfrifon a chyfrifo costau a manteision.

Defnyddiwyd y costau graddfeydd isod yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft er mwyn amcangyfrif costau ac arbedion staff.

**Graddfeydd Cyflog 2014-15:**

| Band Cyflog | Gradd | Cyflog Blynyddol | Cost Gros Flynyddol | Cost Gros Fisol |
|---|---|---|---|---|
| Band Tîm | TS | £21,000 | £25,700 | £2,100 |
| Swyddog Gweithredol | SG | £24,500 | £30,700 | £2,600 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | SGU | £32,200 | £40,600 | £3,400 |
| Uwch Swyddog Gweithredol | USG | £40,900 | £51,900 | £4,300 |
| Swyddog Gweithredol Band 2 | G7 | £52,900 | £69,400 | £5,800 |
| Swyddog Gweithredol Band 1 | G6 | £65,000 | £85,900 | £7,200 |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | SCS5 | £75,000 | £101,400 | £8,400 |
| Pennaeth Grŵp | SCS4 | £80,000 | £108,300 | £9,000 |
| Cyfarwyddwr | SCS3 | £95,000 | £129,000 | £10,700 |
| Cyfarwyddwr Cyffredinol | SCS2 | £130,000 | £177,300 | £14,800 |

## Opsiwn 1 - Gwneud Dim

Nid oes unrhyw gyfrifiadau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

## Opsiwn 2 - Cydwasanaeth Gweinyddu

Defnyddiwyd y wybodaeth ganlynol i gyfrifo'r amcangyfrifon o gostau a manteision a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Dengys y tabl isod strwythur posibl tîm cymorth o dan nawdd Llywodraeth Cymru. Disgwylir i nifer aelodau'r tîm hwn leihau ar ôl tair blynedd unwaith y bydd y gwasanaeth gweinyddol newydd wedi'i sefydlu.

Mae Tabl 1 yn cyfrifo cost strwythur tîm posibl i gefnogi tair blynedd gychwynnol unrhyw gydwasanaeth gweinyddu newydd.

Dengys Tabl 2 dîm llai o faint o gymharu â'r un a nodir yn Nhabl 1. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai gan y tîm lai o rôl i'w chwarae unwaith y bydd y cyfnod cychwynnol o dair blynedd wedi'i gwblhau ac y byddai angen strwythur tîm llai o faint ar gyfer gweddill y cyfnod o 10 mlynedd.

Tabl 1: Costau Amcangyfrifedig Blynyddol Tîm Cymorth Llywodraeth Cymru 2019/20-2021/22

| | Nifer y Staff sydd eu Hangen | % Amser y Swyddog sydd ei Angen bob Blwyddyn | Cost y Flwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 1 | 25% | £101,400 | £25,300 |
| Band Gweithredol 2 | 2 | 100% | £69,400 | £138,800 |
| Uwch Swyddog Gweithredol | 2 | 50% | £51,900 | £51,900 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 3 | 100% | £40,600 | £121,900 |
| Swyddog Gweithredol | 2 | 100% | £30,700 | £61,400 |
| Tîm Cymorth | 1 | 100% | £25,700 | £25,700 |
| Cyfreithiwr | 2 | 50% | £69,400 | £69,400 |
| **Cyfanswm y Gost** | | | | **£494,500** |

Tabl 2: Costau Llai Amcangyfrifedig Blynyddol Tîm Cymorth Llywodraeth Cymru 2022/23 ymlaen

| | Nifer y Staff sydd eu Hangen | % Amser y Swyddog sydd ei Angen bob Blwyddyn | Cost y Flwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 1 | 25% | £101,400 | £25,300 |
| Band Gweithredol 2 | 1 | 100% | £69,400 | £69,400 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 2 | 100% | £40,600 | £81,300 |
| Cymorth Tîm | 1 | 100% | £25,700 | £25,700 |
| Cyfreithiwr | 1 | 25% | £69,400 | £17,400 |
| **Cyfanswm y Gost** | | | | **£219,100** |

## *Costau i Lywodraeth Leol*

### *Costau Cymorth Ymgynghori*

Byddai'r broses o roi unrhyw gydwasanaeth gweinyddol newydd i Gymru gyfan ar waith yn gofyn am newid prosesau rheoli, newid technolegol a newid diwylliant. Mae Tabl 3 yn amcangyfrif lefel yr ymgynghori allanol a fyddai'n ofynnol er mwyn goruchwylio newid o'r fath a'r costau sy'n gysylltiedig â'r gofyniad hwn.

Tabl 3: Cyfrifo Costau Ymgynghori Llywodraeth Leol

| | | |
|---|---|---|
| Nifer yr Awdurdodau Lleol | 22 | 22 |
| Cost Ymgynghori y Dydd | £500 | £500 |
| | | |
| Nifer y Diwrnodau sydd eu Hangen fesul Awdurdod Lleol | Isaf | Uchaf |
| Cyn gweithredu (Diwrnodau) | 150 | 200 |
| Ôl-weithredu (Diwrnodau) | 100 | 150 |
| Ôl-weithredu (Diwrnodau) | 50 | 100 |
| **Y gost fesul Awdurdod Lleol** | **£150,000** | **£225,000** |
| | | |
| **Y Gost y Flwyddyn** | Isaf | Uchaf |
| Cyn gweithredu | £1,650,000 | £2,200,000 |
| Ôl-weithredu | £1,100,000 | £1,650,000 |
| Ôl-weithredu | £550,000 | £1,100,000 |
| **Cyfanswm y Gost i Lywodraeth Leol** | **£3,300,000** | **£4,950,000** |

## *Costau Hyfforddiant*

Fel rhan o opsiwn posibl y cydwasanaeth gweinyddol byddai'n ofynnol i lwyfan TG newydd gael ei gyflwyno ledled Cymru, gan ddisodli systemau presennol pob Awdurdod Lleol. Yn sgil rhoi unrhyw system TG newydd ar waith, byddai angen lefel resymol o hyfforddiant ar y staff sy'n gweithio ar y system.

Mae Tabl 4 yn amcangyfrif faint o oriau o hyfforddiant, ar gyfartaledd, sydd eu hangen gan bob swyddog Gweinyddol cyfwerth ag amser llawn (CALl). Amcangyfrifwyd gofyniad hyfforddi cyfartalog ar gyfer pob swyddog gweinyddol CALl. Fe'i seiliwyd ar y dybiaeth y byddai angen i Swyddogion sy'n gweithio gyda'r system yn rheolaidd gael hyfforddiant helaeth ar sut i ddefnyddio'r system newydd, tra disgwylir y bydd angen llawer llai o hyfforddiant ar unigolion sy'n ei defnyddio’n llai aml.

Tabl 4: Costau Hyfforddiant TG Cydwasanaeth Gweinyddol

| | | |
|---|---|---|
| Y Gofyniad am Hyfforddiant TG | | |
| Nifer y staff a gyflogir mewn rolau Gweinyddol CALI | | 9,350 |
| Nifer amcangyfrifedig y staff sydd eu hangen ar ôl sefydlu'r cydwasanaeth | | |
| Uchafswm | | 8,883 |
| Isafswm | | 8,415 |
| Nifer yr oriau o hyffoddiant sydd au hangen fesul cyflogai, ar gyfartaledd | | 10 |
| Cost amcangyfrifedig hyfforddiant yr awr, ar gyfartaledd | | £50 |
| Cyfanswm costau hyfforddiant (wedi'u talgrynu) | | |
| Uchafswm | **£** | **4,441,300** |
| Isafswm | **£** | **4,207,500** |

## *Costau Teithio Ychwanegol*

Disgwylir y byddai angen i gyfran fach o staff gweinyddol deithio ymhellach o ganlyniad i gydwasanaeth gweinyddol newydd. Amcangyfrifir bod y nifer hon yn fach iawn oherwydd byddai Awdurdodau Lleol yn ystyried ffyrdd hyblyg o weithio yn llawn lle y bo'n bosibl.

Dim ond dros y tair blynedd gyntaf y dylid mynd i gostau teithio ychwanegol; ni ddisgwylid i Awdurdodau Lleol fynd i gostau teithio ychwanegol ar ôl hyn.

Tabl 5: Costau Teithio Ychwanegol

| | |
|---|---|
| Nifer amcangyfrifedig y staff y bydd angen iddynt deithio | |
| Uchafswm | 250 |
| Isafswm | 150 |
| Milltiroedd ychwanegol amcangyfrifedig y | 40 |
| Y gost y filltir | £0.45 |
| Nifer y diwrnodau gwaith y flwyddyn | 225 |
| **Cyfanswm y costau teithio ychwanegol blynyddol** | |
| Uchafswm | £1,012,500 |
| Isafswm | £607,500 |

## *Costau Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar*

Byddai canolfan weinyddu fwy effeithlon ac effeithiol yn arwain at ostyngiad yn nifer y swyddi gweinyddol. Mae'r cyfrifiadau isod yn amcangyfrif nifer o ostyngiadau posibl. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai angen i gyfran fawr o swyddi gweinyddol presennol pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol barhau i weithio'n lleol gydag amrywiaeth o arbedion effeithlonrwydd cyffredinol yn cael eu cyflawni drwy lywodraeth leol.

Mae'n anochel y byddai lleihau nifer y swyddi gweinyddol yn arwain at gostau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar. Mae Tabl 6 yn rhoi manylion yr ystod amcangyfrifedig o gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y swyddi gweinyddol.

Tabl 6: Costau Amcangyfrifedig Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar

Cyfanswm y swyddi gweinyddol mewn llywodraeth leol (2013/14) **9,350**

Gostyngiad amcangyfrifedig yn nifer y swyddi o ganlyniad i sefydlu cydwasanaeth gweinyddol

| | | |
|---|---|---|
| Uchafswm | 10% | 935 |
| Isafswm | 5% | 468 |

| | |
|---|---|
| Costau amcangyfrifedig swydd weinyddol, ar gyfartaledd | £32,000 |

| | |
|---|---|
| Nifer amcangyfrifedig y blynyddoedd o wasanaeth, ar gyfartaledd | 10 |
| Lluosydd cyfartalog amcangyfrifedig Awdurdodau Lleol | 1.5 |
| Canran amcangyfrifedig y staff gweinyddol o dan 55 oed | 80% |
| **Costau Taliadau Dileu Swyddi** | |
| **Uchafswm** | **£6,904,600** |
| **Isafswm** | **£3,452,300** |
| Canran amcangyfrifedig y staff gweinyddol dros 55 oed | 20% |
| Nifer amcangyfrifedig y staff a fyddai'n ymddeol yn gynnar | |
| Uchafswm | 187 |
| Isafswm | 94 |
| Cost amcangyfrifedig ymddeoliad cynnar y pen* | |
| Uchafswm | £70,000 |
| Isafswm | £50,000 |
| **Costau amcangyfrifedig pensiynau cynnar** | |
| **Uchafswm** | **£13,090,000** |
| **Isafswm** | **£4,675,000** |
| **Cyfanswm y Gost** | |
| **Uchaf** | **£19,995,000** |
| **Isaf** | **£8,127,000** |

*Ceisir rhagor o wybodaeth am gostau pensiwn cyfartalog ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleididol terfynol

*Gofynion Llywodraethu*

Tabl 7: Costau Bwrdd y Cydwasanaeth Gweinyddol a'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd bwrdd y flwyddyn | 12 |
| Nifer amcangyfrifedig aelodau anweithredol byrddau | 5 |
| Cost aelod anweithredol o fwrdd fesul cyfarfod | £300 |
| Cymorth gweinyddol fesul cyfarfod | £100 |
| Cyfanswm y gost fesul cyfarfod | £1,600 |
| **Cyfanswm y Gost Flynyddol** | **£19,200** |
| Nifer cyfarfodydd cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu y flwyddyn | 4 |
| Cymorth gweinyddol fesul cyfarfod | £100 |
| Teithio a chynhaliaeth fesul cyfarfod | £1,100 |
| **Cyfanswm** | **£4,800** |
| **Cyfanswm y Gost** | **£24,000** |

## MANTEISION

Byddai lleihau cyfanswm y swyddi gweinyddol sydd eu hangen o fewn llywodraeth leol yn arwain at arbedion blynyddol. Gan ddefnyddio'r gostyngiad amcangyfrifedig yn nifer y swyddi gweinyddol, mae'r arbedion isod wedi'u cyfrifo. Cyfrifwyd yr amcangyfrifon hyn gan ddefnyddio cost gyfartalog amcangyfrifedig cyflogai gweinyddol a gymerwyd o ddata a gasglwyd ar gyfer adolygiad KPMG o gostau gweinyddol.

Tabl 8: Arbedion Gweinyddol Amcangyfrifedig

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm amcangyfrifedig y swyddi gweinyddol mewn llywodraeth leol | | **9,350** |
| Gostyngiad amcangyfrifedig yn nifer y swyddi o ganlyniad i sefydlu cydwasanaeth gweinyddol | | |
| Uchafswm | 10% | 935 |
| Isafswm | 5% | 468 |
| Cost amcangyfrifedig swydd weinyddol, ar gyfartaledd | | £32,000 |
| **Gostyngiad blynyddol mewn costau gweinyddol** | | |
| **Uchafswm** | | **£29,920,000** |
| **Isafswm** | | **£14,960,000** |

## Opsiynau 3a a 3b – Uno Awdurdodau Lleol

Mae Opsiwn 3a yn lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru o 22 i 12, tra bod Opsiwn 3b yn lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru o 22 i wyth neu naw. Mae'r tablau isod yn rhoi rhagor o fanylion am yr amcangyfrifon o gostau a manteision a gyflwynir ym mhrif destun yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion cost amcangyfrifedig sefydlu tîm cymorth o dan nawdd Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i roi strwythur newydd llywodraeth leol ar waith. Mae'r cyfrifiadau hyn yn gyson ar gyfer Opsiwn 3a ac Opsiwn 3b.

Tabl 9: Costau Amcangyfrifedig Staff Llywodraeth Cymru

| Gradd Staff | Cost Flynyddol Gyfartalog | Nifer y Staff sydd eu Hangen | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfanswm | Cyfanswm (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tîm y Rhaglen | | | | | | | | |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | £101,400 | 3 | £304,200 | £304,200 | £304,200 | £304,200 | **£1,216,800** | **£1,156,500** |
| Band Gweithredol 1 | £85,900 | 1 | £85,900 | £85,900 | £85,900 | £85,900 | **£343,600** | **£326,600** |
| Band Gweithredol 2 | £69,400 | 8 | £555,200 | £555,200 | £555,200 | £555,200 | **£2,220,800** | **£2,110,700** |
| Uwch Swyddog Gweithredol | £51,900 | 5 | £259,500 | £259,500 | £259,500 | £259,500 | **£1,038,000** | **£986,500** |
| Swyddog Gweithredol Uwch | £40,600 | 6 | £243,600 | £243,600 | £243,600 | £243,600 | **£974,400** | **£926,100** |
| Tîm Cymorth | £25,700 | 2 | £51,400 | £51,400 | £51,400 | £51,400 | **£205,600** | **£195,400** |
| Cymorth Cyfreithiol | | | | | | | | |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | £101,400 | 1 | £101,400 | £101,400 | £101,400 | £101,400 | **£405,600** | **£385,500** |
| Band Gweithredol 1 | £85,900 | 1 | £85,900 | £85,900 | £85,900 | £85,900 | **£343,600** | **£326,600** |
| Band Gweithredol 2 | £69,400 | 4 | £277,600 | £277,600 | £277,600 | £277,600 | **£1,110,400** | **£1,055,300** |
| **Cyfanswm** | | | **£1,964,700** | **£1,964,700** | **£1,964,700** | **£1,964,700** | **£7,858,800** | **£7,469,100** |

### *Costau i Lywodraeth Leol*

#### *Costau Awdurdodau Cysgodol*

Mae'r tabl isod yn defnyddio data gwariant ar etholiadau a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Awdurdodau Lleol drwy ffurflenni Alldro Refeniw. Cyfrifwyd cost amcangyfrifedig gyffredinol etholiadau Awdurdodau Cysgodol drwy addasu gwariant ar etholiadau yn 2012/13, wedi'i addasu er mwyn ystyried y gwariant gan Ynys Môn yn 2013/14.

Tabl 10: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol

| Costau | 2019/20 Isaf | 2019/20 Uchaf | 2020/21 Isaf | 2020/21 Uchaf |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cost Etholiadau ALlau 2012/13 (Ffurflenni Alldro Refeniw - wedi'u haddasu ar gyfer gwariant Ynys Môn yn 2013/14) | £9,179,800 | £9,179,800 | £9,179,800 | £9,179,800 |
| Canran yr Awdurdodau Lleol presennol lle y byddai angen cynnal etholiadau | 86% | 86% | 14% | 14% |
| Ffactor chwyddiant amcangyfrifedig* | 1.05 | 1.15 | 1.05 | 1.15 |
| **Cyfanswm cost etholiadau** | **£8,324,400** | **£9,117,200** | **£1,314,400** | **£1,439,600** |

*Mae'r ystod chwyddiant yn seiliedig ar ffigurau diweddar ar gyfer Cynnyrch Domestig Gros

Tabl 11: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol

| Costau | 2019/20 Isaf | 2019/20 Uchaf | 2020/21 Isaf | 2020/21 Uchaf |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cost Etholiadau ALlau 2012/13 (Ffurflenni Alldro Refeniw - wedi'u haddasu ar gyfer gwariant Ynys Môn yn 2013/14) | £9,179,800 | £9,179,800 | £9,179,800 | £9,179,800 |
| Canran yr Awdurdodau Lleol presennol lle y byddai angen cynnal etholiadau | 95% | 95% | 5% | 5% |
| Ffactor chwyddiant amcangyfrifedig* | 1.05 | 1.15 | 1.05 | 1.15 |
| **Cyfanswm Cost Etholiadau** | **£9,200,700** | **£10,076,900** | **£438,100** | **£479,900** |

*Mae'r ystod chwyddiant yn seiliedig ar ffigurau diweddar ar gyfer Cynnyrch Domestig Gros

Amcangyfrifwyd y byddai angen staff gweinyddol ychwanegol ar bob Awdurdod Cysgodol er mwyn cynorthwyo'r Awdurdodau Cysgodol. Mae'r tabl isod yn cyfrifo cost amcangyfrifedig cymorth gweinyddol ychwanegol.

Tabl 12: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Swyddogion Dros Dro sydd eu Hangen i Wasanaethu'r Awdurdod Cysgodol

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Cost staff gweinyddol (y pen)* | £32,000 | £32,000 |
| Nifer y staff gweinyddol sydd eu hangen fesul ALl newydd | 3 | 4 |
| Nifer yr Awdurdodau Cysgodol sydd eu hangen | 9 | 9 |
| **Cyfanswm cost staff** | **£864,000** | **£1,152,000** |

*Costau swyddog gweinyddol cyffredin mewn ALl

Tabl 13: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Swyddogion Dros Dro sydd eu Hangen i Wasanaethu'r Awdurdod Cysgodol

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Cost staff gweinyddol (y pen)* | £32,000 | £32,000 |
| Nifer y staff gweinyddol sydd eu hangen fesul Awdurdod Lleol newydd | 3 | 4 |
| Nifer yr awdurdodau cysgodol sydd eu hangen (Opsiwn 3b) | 7 | 8 |
| **Cyfanswm cost staff gweinyddol** | **£672,000** | **£1,024,000** |

*Costau swyddog gweinyddol cyffredin mewn ALl

Mae'r tabl isod yn amcangyfrif costau ychwanegol Prif Weithredwyr ac uwch reolwyr sy'n gysylltiedig â chreu Awdurdodau Cysgodol. Amcangyfrifwyd canran yr uwch reolwyr a benodir i Awdurdodau Cysgodol nad ydynt yn cyflawni rolau fel uwch reolwyr mewn Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd.

Tabl 14: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Prif Weithredwyr Awdurdodau Cysgodol

| | 2019/20 | |
|---|---|---|
| | Isaf | Uchaf |
| Nifer y Prif Weithredwyr fesul Awdurdod Cysgodol | 1 | 1 |
| Cyfanswm y Prif Weithredwyr newydd a benodir (9 Awdurdod Cysgodol) | 9 | 9 |
| Canran aelodau'r uwch dîm rheoli sy'n newydd i lywodraeth leol yng Nghymru | 20% | 30% |
| Cost Prif Weithredwr, ar gyfartaledd | £154,000 | £154,000 |
| Nifer y misoedd y bydd angen Prif Weithredwr ar Awdurdodau Cysgodol | 6 | 6 |
| **Cyfanswm Cost Uwch Reolwyr** | **£138,600** | **£207,900** |

Tabl 15: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Prif Weithredwyr Awdurdodau Cysgodol

| | 2019/20 | |
|---|---|---|
| | Isaf | Uchaf |
| Nifer y Prif Weithredwyr fesul Awdurdod Cysgodol | 1 | 1 |
| Cyfanswm y Prif Weithredwyr newydd a benodir (7 neu 8 Awdurdod Cysgodol) | 7 | 8 |
| Canran aelodau'r uwch dîm rheoli sy'n newydd i lywodraeth leol yng Nghymru | 20% | 30% |
| Cost Prif Weithredwr, ar gyfartaledd | £154,000 | £154,000 |
| Nifer y misoedd y bydd angen Prif Weithredwr ar Awdurdodau Cysgodol | 6 | 6 |
| **Cyfanswm cost uwch reolwyr** | **£107,800** | **£184,800** |

Tabl 16: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Uwch Dimau Rheoli Awdurdodau Cysgodol

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Nifer yr uwch reolwyr fesul Awdurdod Cysgodol | 8 | 15 |
| Cyfanswm yr uwch reolwyr newydd a benodir | 72 | 135 |
| Canran aelodau'r uwch dîm rheoli sy'n newydd i lywodraeth leol yng Nghymru | 20% | 30% |
| Cost ganolrifol uwch reolwr | £100,000 | £100,000 |
| Nifer y misoedd y bydd angen uwch reolwyr ar Awdurdodau | 4 | 4 |
| **Cyfanswm Cost Uwch Reolwyr** | **£480,000** | **£1,350,000** |

Tabl 17: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Uwch Dimau Rheoli Awdurdodau Cysgodol

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Nifer yr uwch reolwyr fesul awdurdod cysgodol | 8 | 15 |
| Cyfanswm yr uwch reolwyr newydd a benodir | 56 | 120 |
| Canran aelodau'r uwch dîm rheoli sy'n newydd i lywodraeth leol yng Nghymru | 20% | 30% |
| Cost ganolrifol uwch reolwr | £100,000 | £100,000 |
| Nifer y misoedd y bydd angen uwch reolwyr ar Awdurdodau Cysgodol | 4 | 4 |
| **Cyfanswm cost uwch reolwyr** | **£373,300** | **£1,200,000** |

## *Costau Recriwtio*

Tabl 18: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Recriwtio ar gyfer Awdurdodau Cysgodol

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Nifer yr Awdurdodau Cysgodol | 9 | 9 |
| Cost recriwtio fesul Awdurdod Cysgodol | £60,000 | £80,000 |
| **Cyfanswm** | **£540,000** | **£720,000** |

Tabl 19: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Recriwtio ar gyfer Awdurdodau Cysgodol

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Nifer yr Awdurdodau Cysgodol | 7 | 8 |
| Cost recriwtio fesul Awdurdod Cysgodol | £60,000 | £80,000 |
| **Cyfanswm y gost** | **£420,000** | **£640,000** |

Byddai angen Cynghorwyr ychwanegol yn ystod cyfnod yr Awdurdodau Cysgodol. Amcangyfrifwyd canran y Cynghorwyr a gâi eu hailbenodi a'r lwfansau ychwanegol a roddir i Gynghorwyr presennol a fydd yn cael eu hailbenodi.

Tabl 20: Opsiwn 3a a 3b - Cost Amcangyfrifedig Cynghorwyr Ychwanegol

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Nifer y Cynghorwyr a benodir o ganlyniad i uno ALlau | 700 | 900 |
| Canran y Cynghorwyr newydd yng Nghymru | 25% | 40% |
| Cost Cynghorydd, ar gyfartaledd | £17,000 | £17,000 |
| | | |
| Canran y Cynghorwyr a ailbenodir | 75% | 60% |
| Lwfans ychwanegol ar gyfer Cynghorwyr a ailbenodir | £5,000 | £5,000 |
| | | |
| Lwfans teithio ychwanegol fesul Cynghorydd | £500 | £500 |
| **Cyfanswm y gost** | **£5,970,000** | **£9,310,000** |

*Costau Staff ac Uwch Reolwyr*

Drwy weithredu Opsiwn 3a a 3b byddai addasiadau i ofynion llywodraeth leol o ran uwch reolwyr. Mae'r cyfrifiadau isod yn amcangyfrif y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwneud yr addasiadau hyn.

**Cyfrifo Costau Ymddeoliad Cynnar Uwch Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Costau amcangyfrifedig ymddeoliad cynnar Uwch Swyddog | £100,000 |
| Costau amcangyfrifedig ymddeoliad cynnar Prif Swyddog Gweithredol | £150,000 |

**Cyfrifo Costau Taliadau Dileu Swyddi Uwch Swyddogion**

Y gost wythnosol x Blynyddoedd o Wasanaeth x Lluosydd = Cost Taliadau Dileu Swyddi

| | | |
|---|---|---|
| Isafswm | £100,000/52 wythnos x 15 x 1.5 | £43,300 |
| Uchafswm | £100,000/52 wythnos x 20 x 1.5 | £57,700 |

**Cyfrifo Costau Taliadau Dileu Swyddi Prif Swyddogion Gweithredol**

Y gost wythnosol x Blynyddoedd o Wasanaeth x Lluosydd = Cost Taliadau Dileu Swyddi

| | | |
|---|---|---|
| Isafswm | £154,000/52 wythnos x 15 x 1.5 | £66,600 |
| Uchafswm | £154,000/52 wythnos x 20 x 1.5 | £88,800 |

Byddai costau ymddeol yn gynnar yn amrywio'n sylweddol ac maent yn gwbl ddibynnol ar amgylchiadau personol unigolyn. Defnyddiwyd yr amcangyfrifon isod i gyfrifo'r costau ymddeol yn gynnar cyffredinol. Caiff costau ymddeol yn gynnar eu dadansoddi ymhellach er mwyn ategu'r fersiwn derfynol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rhoddwyd ystod amcangyfrifedig ar gyfer y gostyngiad yn nifer y Prif Weithredwyr ac uwch reolwyr. Mae'r ystod a roddwyd yn cynnwys y potensial ar gyfer pennu rolau yn y Cynghorau Sir newydd i bobl nad ydynt yn gweithio mewn llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd. Defnyddiwyd yr ystod hon i amcangyfrif nifer yr uwch swyddogion a allai fod yn gymwys i ymddeol yn gynnar.

Tabl 21: Opsiwn 3a - Costau Amcangyfrifedig Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar

| Gostyngiad yn nifer yr Uwch Swyddogion (Opsiwn 3a - Williams) | | Cyfanswm y Gost |
|---|---|---|
| **Isaf** | **36** | **£2,351,900** |
| Ymddeoliad Cynnar | 14 | £1,400,000 |
| Taliadau Dileu Swyddi | 22 | £951,900 |
| | | |
| **Uchaf** | **115** | **£8,580,800** |
| Ymddeoliad Cynnar | 46 | £4,600,000 |
| Taliadau Dileu Swyddi | 69 | £3,980,800 |
| | | |
| **Gostyngiad yn nifer y Prif Swyddogion Gweithredol (Opsiwn 3a - Williams)** | | **Cyfanswm y Gost** |
| **Isaf** | **12** | **£1,216,400** |
| Ymddeoliad Cynnar | 5 | £750,000 |
| Taliadau Dileu Swydd | 7 | £466,400 |
| | | |
| **Uchaf** | **13** | **£1,460,800** |
| Ymddeoliad Cynnar | 5 | £750,000 |
| Taliadau Dileu Swyddi | 8 | £710,800 |
| | | |
| **Cyfanswm y gostyngiad yng nghostau Prif Swyddogion Gweithredol ac Uwch Swyddogion** | | |
| **Isaf** | | **£3,568,000** |
| **Uchaf** | | **£10,042,000** |

Tabl 22: Opsiwn 3b - Costau Amcangyfrifedig Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar

| Gostyngiad yn nifer yr Uwch Swyddogion (Opsiwn 3b - 8 neu 9 ALl) | | Cyfanswm y Gost |
|---|---|---|
| **Isaf** | **78** | **£5,133,700** |
| Ymddeoliad Cynnar | 31 | £3,100,000 |
| Dileu Swyddi | 47 | £2,033,700 |
| | | |
| **Uchaf** | **142** | **£10,603,800** |
| Ymddeoliad Cynnar | 57 | £5,700,000 |
| Dileu Swyddi | 85 | £4,903,800 |
| | | |
| **Gostyngiad yn nifer y Prif Swyddogion Gweithredol (Opsiwn 3b - 8 neu 9 ALl)** | | |
| **Isaf** | **15** | **£1,499,700** |
| Ymddeoliad Cynnar | 6 | £900,000 |
| Dileu Swyddi | 9 | £599,700 |
| | | |
| **Uchaf** | **16** | **£1,788,500** |
| Ymddeoliad Cynnar | 6 | £900,000 |
| Dileu Swyddi | 10 | £888,500 |
| | | |
| **Cyfanswm cost amcangyfrifedig lleihau nifer y Prif Swyddogion Gweithredol a'r uwch reolwyr** | | |
| **Isaf** | | **£6,633,400** |
| **Uchaf** | | **£12,392,300** |

Ochr yn ochr â gostyngiad yn nifer yr uwch swyddogion amcangyfrifwyd hefyd y byddai nifer y swyddi gweinyddol o fewn llywodraeth leol yn gostwng. Mae'r tabl isod yn nodi ystod amcangyfrifedig a'r costau sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y swyddi gweinyddol o fewn Llywodraeth Leol.

Tabl 23: Opsiwn 3a - Costau Amcangyfrifedig Lleihau Nifer y Staff Gweinyddol

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y staff CALl a gyflogir mewn rolau gweinyddol ar hyn o bryd (Adroddiad KPMG) | | 9,350 |
| | Isafswm | Uchafswm |
| Gostyngiad canrannol amcangyfrifedig yn nifer y swyddi gweinyddol o ganlyniad i uno Awdurdodau Lleol | 10% | 15% |
| Gostyngiad amcangyfrifedig yn nifer y swyddi gweinyddol | 935 | 1,403 |
| Cost swydd weinyddol, ar gyfartaledd | £32,000 | £32,000 |
| Nifer y blynyddoedd o wasanaeth, ar gyfartaledd | 10 | 10 |
| Lluosydd | 1.5 | 1.5 |
| **Costau Taliadau Dileu Swyddi** | **£7,336,000** | **£10,357,000** |
| Canran amcangyfrifedig y staff a fydd yn ymddeol yn gynnar | 15% | 20% |
| Nifer amcangyfrifedig y staff a fydd yn ymddeol yn gynnar | 140 | 281 |
| Y gost amcangyfrifedig fesul aelod o staff a fydd yn ymddeol yn gynnar* | £50,000 | £70,000 |
| **Cost Ymddeol yn Gynnar** | **£7,013,000** | **£19,635,000** |
| **Cyfanswm Cost Lleihau Nifer y Staff** | **£14,349,000** | **£29,992,000** |

*Amcangyfrifwyd y costau sy'n gysylltiedig ag ymddeol yn gynnar, ceisir rhagor o wybodaeth erbyn y Bil terfynol.

Tabl 24: Opsiwn 3b - Costau Amcangyfrifedig Lleihau Nifer y Staff Gweinyddol

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y staff CALl a gyflogir mewn rolau gweinyddol ar hyn o bryd (Adroddiad KPMG) | | 9,350 |
| | Isafswm | Uchafswm |
| Gostyngiad canrannol amcangyfrifedig yn nifer y swyddi gweinyddol o ganlyniad i uno Awdurdodau Lleol | 15% | 20% |
| Gostyngiad amcangyfrifedig yn nifer y swyddi gweinyddol | 1,403 | 1,870 |
| Cost swydd weinyddol, ar gyfartaledd | £32,000 | £32,000 |
| Nifer y blynyddoedd o wasanaeth, ar gyfartaledd | 10 | 10 |
| Lluosydd | 1.5 | 1.5 |
| Nifer amcangyfrifedig y staff a fydd yn ymddeol | 1,192 | 1,496 |
| **Costau Taliadau Dileu Swyddi** | **£11,004,200** | **£13,809,200** |
| Canran amcangyfrifedig y staff a fydd yn ymddeol yn gynnar | 15% | 20% |
| Nifer amcangyfrifedig y staff a fydd yn ymddeol yn gynnar | 210 | 374 |
| Y gost amcangyfrifedig fesul aelod o staff a fydd yn ymddeol yn gynnar* | £50,000 | £70,000 |
| **Cost Ymddeoliadau Cynnar** | **£10,518,800** | **£26,180,000** |
| **Cyfanswm Cost Lleihau Nifer y Staff** | **£21,523,000** | **£39,989,200** |

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn amcangyfrif y byddai angen i nifer o staff deithio ymhellach o ganlyniad i weithredu Opsiwn 3a neu 3b; mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd Awdurdodau Lleol yn ystyried trefniadau gweithio hyblyg yn llawn lle y bo'n bosibl.

Tabl 25: Opsiwn 3a a 3b - Costau Amcangyfrifedig Teithio Ychwanegol

| Costau Teithio Ychwanegol | 2019/20 | | 2020/21 | | 2021/22 | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | **Isaf** | **Uchaf** |
| Nifer amcangyfrifedig y staff y bydd angen iddynt deithio ymhellach | 500 | 1,500 | 500 | 1,500 | 500 | 1,500 | **500** | **1,500** |
| Milltiroedd ychwanegol fesul aelod o staff, ar gyfartaledd | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | **40** | **40** |
| Y gost y filltir | £0.45 | £0.45 | £0.45 | £0.45 | £0.45 | £0.45 | **£0.45** | **£0.45** |
| Cyfanswm y dydd | £9,000 | £27,000 | £9,000 | £27,000 | £9,000 | £27,000 | **£9,000** | **£27,000** |
| Diwrnodau gwaith mewn blwyddyn | 225 | 225 | 225 | 225 | 225 | 225 | | |
| **Cyfanswm y Gost** | **£2,025,000** | **£6,075,000** | **£2,025,000** | **£6,075,000** | **£2,025,000** | **£6,075,000** | **£6,075,000** | **£18,225,000** |

## *Amcangyfrifon o Gostau Gwasanaethau TG*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn ystyried yr angen am lwyfannau TG cyffredin o fewn y Cynghorau Sir newydd. Gwnaed tybiaeth ym mhrif naratif yr Asesiad

Effaith Rheoleiddiol drafft ynghylch cost gweithredu llwyfan TG a rennir ar gyfer pob Cyngor Sir newydd. Ochr yn ochr â'r gofyniad i sefydlu timau cymorth TG ychwanegol, byddai angen hyfforddiant ychwanegol ar staff presennol. Defnyddiwyd yr amcangyfrifon isod i gyfrifo'r gofynion ychwanegol o ran hyfforddiant TG.

Tabl 26: Opsiwn 3a – Costau Amcangyfrifedig Hyfforddiant TG

| | |
|---|---|
| Y Gofyniad am Hyfforddiant TG | |
| Nifer y staff a gyflogir mewn rolau gweinyddol CALl | 9,350 |
| Nifer y staff sydd eu hangen yn dilyn Opsiwn 3a | |
| Uchafswm | 8,415 |
| Isafswm | 7,948 |
| Nifer yr oriau o hyfforddiant sydd eu hangen fesul cyflogai, ar gyfartaledd | 10 |
| Y gost amcangyfrifedig fesul awr o hyfforddiant, ar gyfartaledd | £50 |
| Cyfanswm cost hyfforddiant | |
| Uchafswm | £4,207,500 |
| Isafswm | £3,973,800 |
| Cost flynyddol hyfforddiant | |
| Uchafswm | **£1,402,500** |
| isafswm | **£1,324,600** |

Tabl 27: Opsiwn 3b – Costau Amcangyfrifedig Hyfforddiant TG

| | |
|---|---|
| Y Gofyniad am Hyfforddiant TG | |
| Nifer y staff a gyflogir mewn rolau gweinyddol CALl | 9,350 |
| Nifer y staff sydd eu hangen ar ôl rhoi Opsiwn 3b ar waith | |
| Uchafswm | 7,948 |
| Isafswm | 7,480 |
| Nifer yr oriau o hyfforddiant sydd eu hangen fesul cyflogai, ar gyfartaledd | 10 |
| Y gost amcangyfrifedig fesul awr o hyfforddiant, ar gyfartaledd | £50 |
| Cyfanswm cost hyfforddiant | |
| Uchafswm | £3,973,800 |
| Isafswm | £3,740,000 |
| **Cost flynyddol hyfforddiant** | |
| **Uchafswm** | **£1,324,600** |
| **Isafswm** | **£1,246,700** |

### *Costau Amcangyfrifedig Rheoli Newid*

Seiliwyd yr amcangyfrifon o gostau ymgynghori ar gost gyfartalog fesul diwrnod y math hwn o waith ymgynghori. At hynny, amcangyfrifwyd nifer y diwrnodau o waith ymgynghori sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r lefel hon o newid dros gyfnod o dair blynedd.

Tabl 28: Opsiwn 3a - Costau Amcangyfrifedig Rheoli Newid

| | |
|---|---|
| Nifer yr Awdurdodau Lleol newydd | 9 |
| Cyfradd ymgynghori y dydd, ar gyfartaledd | £500 |
| **Nifer amcangyfrifedig y diwrnodau fydd eu hangen fesul ALl** | **230** |
| 2019/20 | 100 |
| 2020/21 | 80 |
| 2021/22 | 50 |
| Cyfanswm y gost fesul ALl | £115,000 |
| **Cyfanswm y gost** | **£1,035,000** |

Tabl 29: Opsiwn 3b - Costau Amcangyfrifedig Rheoli Newid

| | Isaf | Uchaf |
|---|---|---|
| Nifer yr Awdurdodau Lleol newydd | 7 | 8 |
| Cyfradd ymgynghori y dydd, ar gyfartaledd | £500 | £500 |
| **Nifer amcangyfrifedig y diwrnodau fydd eu hangen fesul ALl** | **230** | **230** |
| 2019/20 | 100 | 100 |
| 2020/21 | 80 | 80 |
| 2021/22 | 50 | 50 |
| Cyfanswm y gost fesul ALl | £115,000 | £115,000 |
| **Cyfanswm y gost** | **£805,000** | **£920,000** |

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

#### *Manteision o ran Rheoli Staff*

Disgwylir i Opsiwn 3a a 3b leihau'r gwariant cyffredinol ar uwch dimau rheoli llywodraeth leol; mae'r tablau isod yn rhoi ystod amcangyfrifedig o strwythurau uwch-reoli posibl ar gyfer y Cynghorau Sir newydd.

Cyfrifir y ffigurau ar gyfer arbedion amcangyfrifedig drwy ddidynnu cyfanswm cost amcangyfrifedig uwch reolwyr yn y Cynghorau Sir newydd o gyfanswm cost uwch reolwyr (sef £24 miliwn) a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd yng nghyfrifon Llywodraeth Leol.

Tabl 30: Opsiwn 3a - Arbedion Amcangyfrifedig o Ganlyniad i Leihau Nifer yr Uwch Reolwyr

*£ y flwyddyn*

| Strwythur Rheoli fesul ALl | Cyfanswm y gost fesul ALl | Nifer yr ALlau | Cyfanswm y gost amcangyfrifedig | Arbedion amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|---|
| 1 Prif Swyddog Gweithredol + 8 Uwch | £954,000 | 12 | £11,448,000 | £12,536,000 |
| 1 Prif Swyddog Gweithredol + 15 o Uwch | £1,654,000 | 12 | £19,848,000 | £4,136,000 |

Tabl 31: Opsiwn 3b - Arbedion Amcangyfrifedig o Ganlyniad i Leihau Nifer yr Uwch Reolwyr

*£ y flwyddyn*

| Strwythur Rheoli fesul ALl | Cyfanswm y Gost fesul ALl | Nifer yr ALlau | Cyfanswm y gost amcangyfrifedig | Arbedion amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|---|
| 1 Prif Swyddog Gweithredol + 8 Uwch Reolwr | £954,000 | 8 | £7,632,000 | £16,352,000 |
| 1 Prif Swyddog Gweithredol + 15 o Uwch Reolwyr | £1,654,000 | 9 | £14,886,000 | £9,098,000 |

Byddai Opsiwn 3a a 3b yn lleihau nifer y Cynghorwyr. Nodir yr arbedion blynyddol amcangyfrifedig a deilliai o ostyngiad yn nifer y Cynghorwyr yn y tabl isod.

Amcangyfrifir bod Opsiwn 3a a 3b yn lleihau nifer y swyddi gweinyddol sydd eu hangen o fewn Llywodraeth Leol. Cyfrifwyd yr arbedion amcangyfrifedig ar gyfer y ddau opsiwn drwy luosi cost amcangyfrifedig swydd weinyddol, ar gyfartaledd, â'r gostyngiad amcangyfrifedig yng nghyfanswm nifer y swyddi gweinyddol.

Tabl 32: Opsiwn 3a – Arbedion Gweinyddol

| | Isafswm | Uchafswm |
|---|---|---|
| Gostyngiad amcangyfrifedig yn nifer y swyddi gweinyddol | **935** | **1,403** |
| Cost swydd weinyddol, ar gyfartaledd | £32,000 | £32,000 |
| **Arbedion amcangyfrifedig blynyddol** | **£29,920,000** | **£44,880,000** |

Tabl 33: Opsiwn 3b – Arbedion Gweinyddol

| | Isafswm | Uchafswm |
|---|---|---|
| Gostyngiad amcangyfrifedig yn nifer y swyddi gweinyddol | **1,403** | **1,870** |
| Cost swydd weinyddol, ar gyfartaledd | £32,000 | £32,000 |
| **Arbedion amcangyfrifedig blynyddol** | **£44,880,000** | **£59,840,000** |

***Lleihau Nifer y Cynghorwyr***

Tabl 34: Opsiwn 3a a 3b - Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ganlyniad i leihau Nifer y Cynghorwyr

| Arbedion o ganlyniad i leihau nifer y Cynghorwyr | 2020/21 | 2021/22 i 2029/30 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 553 yn llai o Gynghorwyr | £9,462,500 | £85,162,500 | £94,625,000 |
| 353 yn llai o Gynghorwyr | £6,040,300 | £54,362,700 | £60,403,000 |

## *Manteision o ran Rheoli Ystadau*

*Amcangyfrif o Ofod Swyddfa wedi'i Gyfuno*

Byddai creu llai o Awdurdodau Lleol, sy'n fwy o faint, yn cynnig cyfleoedd i Awdurdodau Lleol nodi arbedion effeithlonrwydd o ran y ffordd y maent yn rheoli eu hystadau.

Mae'r arbedion amcangyfrifedig a sicrheid drwy leihau nifer y staff gweinyddol wedi'u cyfrifo isod.

Tabl 35: Opsiwn 3a – Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ran Llety

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y swyddi gweinyddol | 9,350 |
| <u>Gostyngiad yn nifer y swyddi gweinyddol</u> | |
| 10% | 935 |
| 15% | 1403 |
| Cost darparu swyddfa ar gyfer swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) (Cyflwr yr Ystad) | £3,100 |
| **<u>Arbedion o ran swyddfeydd</u>** | |
| Isaf | £2,934,800 |
| Uchaf | £4,402,200 |

Tabl 36: Opsiwn 3b – Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ran Llety

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y swyddi gweinyddol | 9,350 |
| <u>Gostyngiad yn nifer y swyddi gweinyddol</u> | |
| 15% | 1,400 |
| 20% | 1,900 |
| Cost darparu swyddfa ar gyfer swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) (Cyflwr yr Ystad) | £3,100 |
| **<u>Arbedion amcangyfrifedig o ran swyddfeydd</u>** | |
| Isaf | £4,402,200 |
| Uchaf | £5,869,600 |

# Rhestr o Dablau


Tabl 1: Costau Amcangyfrifedig Blynyddol Tîm Cymorth Llywodraeth Cymru 2019/20-2021/22 .... 4

Tabl 2: Costau Llai Amcangyfrifedig Blynyddol Tîm Cymorth Llywodraeth Cymru 2022/23 ymlaen .... 4

Tabl 3: Cyfrifo Costau Ymgynghori Llywodraeth Leol .... 5

Tabl 4: Costau Hyfforddiant TG Cydwasanaeth Gweinyddol .... 6

Tabl 5: Costau Teithio Ychwanegol .... 7

Tabl 6: Costau Amcangyfrifedig Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar .... 8

Tabl 7: Costau Bwrdd y Cydwasanaeth Gweinyddol a'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu .... 9

Tabl 8: Arbedion Gweinyddol Amcangyfrifedig .... 10

Tabl 9: Costau Amcangyfrifedig Staff Llywodraeth Cymru .... 11

Tabl 10: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol .... 12

Tabl 11: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol .... 12

Tabl 12: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Swyddogion Dros Dro sydd eu Hangen i Wasanaethu'r Awdurdod Cysgodol .... 12

Tabl 13: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Swyddogion Dros Dro sydd eu Hangen i Wasanaethu'r Awdurdod Cysgodol .... 12

Tabl 14: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Prif Weithredwyr Awdurdodau Cysgodol .... 13

Tabl 15: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Prif Weithredwyr Awdurdodau Cysgodol .... 13

Tabl 16: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Uwch Dimau Rheoli Awdurdodau Cysgodol .... 13

Tabl 17: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Uwch Dimau Rheoli Awdurdodau Cysgodol .... 14

Tabl 18: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Recriwtio ar gyfer Awdurdodau Cysgodol .... 14

Tabl 19: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Recriwtio ar gyfer Awdurdodau Cysgodol .... 14

Tabl 20: Opsiwn 3a a 3b - Cost Amcangyfrifedig Cynghorwyr Ychwanegol .... 14

Tabl 21: Opsiwn 3a - Costau Amcangyfrifedig Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar .... 16

Tabl 22: Opsiwn 3b - Costau Amcangyfrifedig Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar .... 16

Tabl 23: Opsiwn 3a - Costau Amcangyfrifedig Lleihau Nifer y Staff Gweinyddol .... 17

Tabl 24: Opsiwn 3b - Costau Amcangyfrifedig Lleihau Nifer y Staff Gweinyddol .... 18

Tabl 25: Opsiwn 3a a 3b - Costau Amcangyfrifedig Teithio Ychwanegol .... 18

Tabl 26: Opsiwn 3a – Costau Amcangyfrifedig Hyfforddiant TG.................................19
Tabl 27: Opsiwn 3b – Costau Amcangyfrifedig Hyfforddiant TG.................................19
Tabl 28: Opsiwn 3a - Costau Amcangyfrifedig Rheoli Newid.......................................20
Tabl 29: Opsiwn 3b - Costau Amcangyfrifedig Rheoli Newid.......................................20
Tabl 30: Opsiwn 3a - Arbedion Amcangyfrifedig o Ganlyniad i Leihau Nifer yr Uwch Reolwyr.............................................................................................................21
Tabl 31: Opsiwn 3b - Arbedion Amcangyfrifedig o Ganlyniad i Leihau Nifer yr Uwch Reolwyr.............................................................................................................21
Tabl 32: Opsiwn 3a – Arbedion Gweinyddol..............................................................21
Tabl 33: Opsiwn 3b – Arbedion Gweinyddol..............................................................21
Tabl 34: Opsiwn 3a a 3b - Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ganlyniad i leihau Nifer y Cynghorwyr ...................................................................................................22
Tabl 35: Opsiwn 3a – Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ran Llety..................................23
Tabl 36: Opsiwn 3b – Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ran Llety..................................23